YDG CYMRU | ADR WALES

Cip ar Ddata

ILlywio defnydd gwell ar ddata derbyniadau i ysbytai Cymru ym Manc Data SAIL:

Adolygiad o gyflawnder codio clinigol ac oedi yng Nghronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)

Awduron: Victoria Best, Ashley Akbari, Stuart Bedston, Gareth Davies, Emily Lowthian, Jane Lyons, Fatemeh Torabi, Ronan A Lyons

Dyddiad: Ionawr 2022

Canfyddiadau allweddol

- Cyn Ebrill 2020, nifer dyddiol cyfartalog y cyfnodau gofal oedd 3,167, a ostyngodd wedyn rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2021 i gyfartaledd dyddiol o 2,292 (-28%);
- Cyflawnwyd cyfradd gwblhau ICD-10 o 96% 6 mis ar ôl y tro diweddaraf i ddata gael ei ddethol;
- Cyflawnwyd cyfradd gwblhau OPCS-4 o 60% 6 mis o fewn y tro diweddaraf i ddata gael ei ddethol;
- Mae holl benodau ICD-10 ac OPCS-4 yn dangos rhywfaint o ôl-godio, ond mae rhywfaint o amrywiaeth yn y graddau rhwng y penodau.

Cefndir

Gwerthuso effaith Covid-19 ar gyflawnder codio clinigol ac oedi mewn data derbyniadau i ysbytai

"I ryddhau digon o welyau i ddelio â brig ton gyntaf y pandemig, gorfodwyd i'r GIG gau sawl maes gofal heblaw Covid-19, neu eu lleihau'n sylweddol, yn ystod misoedd Ebrill, Mai a Mehefin 2020. Mae hyn, ynghyd â llai o gleifion yn ceisio gofal yn ystod y cyfnod clo, yn golygu y bu gostyngiad mawr yn nifer y triniaethau dewisol, atgyfeiriadau canser brys, triniaethau canser cyntaf ac apwyntiadau cleifion allanol" (BMA, 2020). Bydd hyn yn effeithio nid yn unig ar nifer cyfan y cyfnodau gofal a gofnodwyd, ond ar natur y cyfnodau gofal hynny, oherwydd mae'n debygol y bu mwy o effaith ar driniaethau dewisol na gofal brys mewn Adran Argyfwng.

Covid-19 a chodio clinigol

Cafodd codau ICD-10 brys (Dosbarthiad Rhyngwladol Clefydau, 10fed Diwygiad) ar gyfer cofnodi derbyniadau Covid-19 eu gweithredu gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ym mis Chwefror 2020 (WHO, 2021), ond nid oedd y rhain ar gael yn y DU tan 26 Mawrth 2020 (NHS Digital, 2020). Roedd yn ofynnol ôl-godio unrhyw gyfnodau gofal cyn y dyddiad hwn, ond nid yw'n bosibl gwybod pa mor gyflawn y gwnaethpwyd hyn gan godwyr clinigol ar draws Cymru, ac o fewn byrddau iechyd neu sefydliadau penodol.

Rhwng cyflwyno codau ICD-10 Covid-19 ddiwedd Mawrth a 30 Mehefin 2020, ac argaeledd y codau hyn, cynghorodd NHS Digital fod rhaid cofnodi mai Covid-19 oedd prif ddiagnosis pob cyfnod gofal a oedd yn cynnwys Covid-19 (NHS Digital, 2021). O 1 Gorffennaf 2020, newidiwyd y broses hon i gofnodi mai Covid-19 oedd y diagnosis eilaidd (oni bai mai dyma oedd y prif ddiagnosis). Mae'r newidiadau i'r safonau yn debygol felly o effeithio ar unrhyw ddadansoddiadau sy'n ymchwilio i godau prif ddiagnosis ICD-10 yn unig, nid yn unig wrth ymchwilio i Covid-19, ond diagnosisau eraill lle'r oedd Covid-19 yn bresennol yn ystod y cyfnod gofal.

Targedau codio clinigol:

Cafodd targed cwblhau 95% o godau clinigol ei dynnu o fframwaith cyflawni'r GIG ar gyfer 20/21, gan olygu bod y targed wedi'i ddileu o 1 Ebrill 2020 ymlaen (Llywodraeth Cymru, 2020). Gallai hyn fod wedi gostwng ymhellach y cyfraddau cwblhau ar gyfer pob codio clinigol. Er y newid hwn, mae'n debygol y bydd y codio yn gysylltiedig â chyfnodau gofal Covid-19 wedi aros yn uchel oherwydd difrifoldeb ac effaith Covid-19 ar ofal cleifion ac adrodd cenedlaethol. Gall hyn gam-ystumio'r darlun wrth gymharu cyflawnder codio a chyfnodau gofal Covid-19 â chyflawnder codio a chyfnodau gofal heblaw Covid-19. Nid yw'n hysbys a oedd, ac a yw, cyflyrau penodol a'u codau neu benodau codio perthnasol yn cael eu blaenoriaethu, ac a yw hyn yn cael ei gwblhau'n systematig ar draws Cymru neu yn ôl disgresiwn codwyr clinigol ym mhob bwrdd iechyd/sefydliad.

Sut mae derbyniadau i ysbytai'n cael eu cofnodi?

Mae byrddau iechyd yn lawrlwytho data wedi'i safoni o holl Systemau Gweinyddu Cleifion (PAS) ysbytai a derbynnir data ar gyfer cleifion Cymru sy'n cael eu trin yn Lloegr trwy wasanaeth cyfnewid y GIG (ESCR, 2013). Yna, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn darparu'r data hyn ar gyfer pob bwrdd iechyd i Fanc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL) drwy'r prosesau llywodraethu, anonymeiddio a chysylltu safonol a sefydlwyd ers dros 10 mlynedd.

Mae Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW), sydd ar gael yn SAIL, yn dal data ysbytai ar gyfer achosion mewnol a dydd yn GIG Cymru, yn ogystal ag ar gyfer trigolion Cymru sydd wedi cael eu trin gan Ymddiriedolaethau yn Lloegr ers 1991 (DHCW, 2021). Ar ôl rhyddhau claf, mae codwyr clinigol yn trosi nodiadau cleifion sydd wedi'u hysgrifennu â llaw yn godau ICD-10 ac OPCS-4 (HDR UK, 2020).

Pam mae PEDW yn cael ei ddefnyddio?

Gall y data yn PEDW "ddarparu gwybodaeth am ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd a hefyd nifer yr achosion o glefyd a pha mor gyffredin ydyw" (HDR UK, 2020). Mae llawer o brosiectau a defnyddwyr ym Manc Data SAIL yn defnyddio PEDW ar gyfer ymchwil a deallusrwydd ynghylch Covid-19 a materion heblaw Covid-19. Mae rhestr lawn o brosiectau sy'n defnyddio SAIL a PEDW i'w gweld ar wefan SAIL: https://saildatabank.com/saildata/projects-using-sail/.

Gall data PEDW gael ei gysylltu'n ddienw ac yn ddiogel gan ddilyn canllawiau priodol ac ar ôl i brosiect/defnyddwyr gael cymeradwyaeth, a gall y data gael ei gysylltu â ffynonellau data eraill i gynnig mwy o gipolwg i lwybrau cleifion a dadansoddiadau data hydredol ar raddfa'r boblogaeth.

Strwythur a chynnwys PEDW

Mae PEDW yn dal cofnodion lefel unigol, ar raddfa'r boblogaeth, ar sail cyfnodau gofal gorffenedig dan ymgynghorydd, sef cyfnodau gofal parhaus pan fydd claf sydd wedi'i dderbyn i ysbyty yng ngofal un ymgynghorydd o fewn un darparwr y GIG. Os bydd newid i'r ymgynghorydd neu ddarparwr y GIG, bydd cyfnod gofal newydd dan ymgynghorydd yn dechrau (DHCW, 2021). Mae cyfnodau gofal anorffenedig dan ymgynghorydd ar gael hefyd, ond gallent newid yn sgil gorffen y cyfnod gofal a'i ddiweddaru pan fydd y detholiad data'n cael ei adnewyddu yn y dyfodol o systemau bwrdd iechyd i DHCW a SAIL.

Gall codau diagnostig a thriniaeth lluosog gael eu cofnodi ym mhob cyfnod gofal. Yn PEDW, caiff codau diagnostig ICD-10 a chodau triniaeth OPCS-4 eu defnyddio (ESCR 2013, t.25).

Mae sawl ffordd bosibl o gyfrif data PEDW, gan gynnwys yn ôl cyfnodau hir (fe'u gelwir hefyd yn gyfnodau cleifion mewnol parhaus (CIPs) yng ngwledydd eraill y DU), cyfnodau, cyfnodau gofal, diagnosisau neu driniaethau.

Mae rhywfaint o amrywiaeth mewn arferion codio, yn enwedig o ran diagnosisau eilaidd, a all gymhlethu cymhariaeth ranbarthol. Nod y Rhaglen Gwella Iechyd Corfforaethol y rhoddodd DHCW hi ar waith yw cynyddu cysondeb yn y maes hwn (HDR UK, 2020).


Beth wnaethom ni?

Ein prif nod oedd deall pa effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar gyflawnder codio clinigol, ynghyd ag unrhyw effaith oedi ar godau penodol neu benodau codio. Bydd gwneud hyn yn gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd o PEDW i bawb sydd am ei ddefnyddio yn eu hymchwil.

Aethom ati i ateb y cwestiynau canlynol:

1. A yw holl gyflawnder codio clinigol wedi newid ers i'r achosion cyntaf o Covid-19 ddigwydd?
2. A yw cyflawnder codio clinigol wedi newid mewn rhai penodau codio yn unig?
3. A oes unrhyw oedi deongladwy neu oedi cyson o fewn penodau penodol?

Gan ddefnyddio codau ICD-10 ac OPCS-4, ymchwiliwyd i godio clinigol cofnodion yn PEDW trwy gymharu cofnodion cyn ac ar ôl dechrau pandemig Covid-19. O 1 Ebrill 2020 ymlaen yw ein diffiniad o ar ôl pandemig Covid-19.



Ffigur 1: Cynrychiolaeth weledol o'r berthynas rhwng Cyfnodau Hir, Cyfnodau, Cyfnodau Gofal, a chodau diagnosis clinigol a thriniaethau PEDW.

Fe wnaeth ein dadansoddiad gynnwys pob cyfnod gofal gorffenedig dan ymgynghorydd (FCE) a ddaeth i ben rhwng Ebrill 2016 a Gorffennaf 2021. Oni nodir yn wahanol, mae'r canlyniadau a ddangosir yn perthyn i nifer yr FCEs gwahanol ac mae codio yn cyfeirio at y prif god ICD-10 neu OPCS-4 ar gyfer pob cyfnod gofal. Sylwch mai'r prif god ICD-10 ac OPCS-4 yw'r cod cyntaf a gofnodir ar y cyfnod gofal h.y. safle un neu god un. Os NWL oedd y safle cyntaf, ni wiriom yr ail safle. Dylid nodi y gall un cyfnod mewn ysbyty gynnwys nifer o gyfnodau gofal gyda phrif godio diagnosis a gweithredol gwahanol.

Defnyddiwyd y meini prawf canlynol ar gyfer cynnwys data (gweler adran y diffiniadau am ragor o wybodaeth):

- Cyfnodau gofal â chyswllt data digon cadarn (h.y. pasiodd rhif y GIG brawf gwirio'r digidau; roedd Cyfenw, Enw Cyntaf, Cod Post a Rhyw yn cyfateb yn uniongyrchol i Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD); neu roedd tebygolrwydd cyfatebiaeth niwlog >= 0.9).
- Cyfnodau gofal na restrwyd bod eu prif god diagnosis a thriniaeth yn sensitif, fel y diffinnir yng Nghodau ICD-10 sensitif hysbys presennol yn llyfrgell cysyniadau SAIL https://conceptlibrary.saildatabank.com/concepts/689/detail/ a rhestri Codau OPCS-4 https://conceptlibrary.saildatabank.com/concepts/691/detail/.
- Cyfnodau gofal â'r darparwr gofal yn un o saith Bwrdd Iechyd Cymru neu Ymddiriedolaeth GIG Felindre.
- Cyfnodau gofal yr oedd y data marwolaethau sydd ar gael yn SAIL o'r Detholiad Marwolaethau Ardal Blynyddol (ADDE) yn seiliedig ar gofrestr marwolaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), yn dangos dyddiad dechrau cyfnod gofal cyn dyddiad marwolaeth.

Nid yw cyfnodau gofal anorffenedig dan ymgynghorydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon oherwydd bydd y cofnodion yn newid ymhellach ac, felly, gallant fod yn anghyflawn. Yn gyfan gwbl, roedd 8,051 cyfnod gofal anorffenedig ar gael, gyda'r cynharaf o 2001. Yn ystod cyfnod y dadansoddiad ers Ebrill 2016, roedd cyfanswm o 7,995 cyfnod gofal anorffenedig, yn cynrychioli 0.1% o'r holl gyfnodau gofal.

Cafodd cyfartaleddau treigl saith niwrnod canolog eu plotio i wastatau amrywiaeth ddyddiol a allai gael ei weld, er enghraifft dros benwythnosau neu ar wyliau cyhoeddus. At y diben hwn, cafodd cyfartaledd ei gyfrifo bob dydd ar sail y gwerth ar gyfer y diwrnod hwnnw, y tridiau blaenorol a'r tridiau dilynol.




Beth ddarganfuom ni?

Cyfanswm cyfnodau gofal

Mae nifer y cyfnodau gofal a gofnodwyd yn PEDW bob mis wedi gostwng yn gyson ar ôl i'r achosion cyntaf o Covid-19 ddigwydd, gyda'r nifer isaf o gyfnodau gofal yn digwydd ar 13 Ebrill 2020.

Cyn Ebrill 2020, nifer cyfartalog dyddiol y cyfnodau gofal oedd 3,167, a ostyngodd wedyn rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2021 i gyfartaledd dyddiol o 2,292 (-28%).




Ffigur 2: Cyfanswm nifer Cyfnodau Gofal Cleifion rhwng Ionawr 2019 a Gorffennaf 2021 (cyfartaledd dreigl 7 niwrnod).

Caiff mwyafrif yr FCEs eu cofnodi o fewn eu cyfnod adrodd misol priodol. Fodd bynnag, nid yw rhai FCEs ar gael yn PEDW tan y detholiadau misol canlynol, os caiff data ei ôl-gofnodi neu ei ôl-gadarnhau. Sylwch, mae hyn yn cyfeirio at gofnodi'r cofnod gweinyddol yn gychwynnol ar gyfer yr FCE, a all fod wedi'i gwblhau'n rhannol, heb gynnwys codio clinigol eto.

28%

o ostyngiad mewn CYFNODAU GOFAL


Ers Ebrill 2020



Ffigur 3: Nifer y cyfnodau gofal yn ôl dyddiad eu hychwanegu at PEDW (cyfartaledd dreigl 7 niwrnod).

Cwblhau codio ICD-10

Fe wnaeth cyfran y cyfnodau gofal â chodau clinigol anghyflawn neu heb god gynyddu 5% o'r cyfnodau gofal a gofnodwyd cyn Ebrill 2020 i 11% o Ebrill 2020 ymlaen. Fodd bynnag, mae cyfradd godio isel wedi cam-ystumio hyn yn sylweddol dros y misoedd diweddar, ac eithrio canlyniadau'r 6 mis diweddaraf sydd â chyfradd heb god o 3% yn unig, sydd islaw'r cyfartaledd cyn Covid-19.




Ffigur 4: Canran y cyfnodau gofal sydd â phrif god ICD-10 wedi'i gofnodi (cyfartaledd treigl 7 niwrnod).

Tabl 1: Canran y Cyfnodau Gofal sydd â Phrif God ICD-10 yn ôl Mis Diwedd y Cyfnod Gofal.


Cyfnod Amser	Dyddiad Diwedd Cyfnod Gofal	Canran wedi'i Chodio (cyfartaledd treigl 7 niwrnod)
Diwedd y Cyfnod Gofal Diweddaraf	27/07/2021	Dd/B
1 Wythnos Cyn	20/07/2021	17%
2 Wythnos Cyn	13/07/2021	29%
3 Wythnos Cyn	06/07/2021	39%
1 Mis Cyn	27/06/2021	67%
2 Fis Cyn	27/05/2021	80%
3 Mis Cyn	27/04/2021	86%
4 Mis Cyn	27/03/2021	91%
5 Mis Cyn	27/02/2021	94%
6 Mis Cyn	27/01/2021	96%

Fel y gwelwyd yn Nhabl 1, cofnodwyd prif god ICD-10 ar gyfer 80% o gyfnodau gofal, ar ôl oedi o ddau fis wedi i'r cyfnodau gofal orffen. Cyflawnwyd cyfradd gwblhau o 96% ar ôl oedi o 6 mis. I gymharu â blynyddoedd cynt, cofnodwyd cod ICD-10 i 96% o gyfnodau gofal yn 2020 a 95% yn 2019.




Ffigur 5: Canran y cyfnodau gofal sydd â phrif god ICD-10 wedi'i gofnodi yn ôl mis codio a ychwanegwyd gyntaf at PEDW (cyfartaledd treigl 7 niwrnod).

Er bod yr holl benodau'n dangos rhywfaint o ôl-godio ICD-10, mae'r graffiau isod yn dangos bod rhywfaint o amrywiaeth yn y graddau rhwng y penodau. Sylwch fod penodau gyda niferoedd bach wedi'u hepgor i osgoi datgeliadau.



Ffigur 6: Nifer y cyfnodau gofal sydd â phrif god ICD-10 wedi'i gofnodi yn ôl mis codio a ychwanegwyd gyntaf at PEDW (cyfartaledd treigl 7 niwrnod) a Phennod ICD-10. Sylwch fod echelin-y wedi'i haddasu i wella'r manylion y gellir eu gweld ar gyfer pob Pennod.

Bu'n rhaid newid cod diagnosis ICD-10 53,616 o gyfnodau gofal ers dethol data'n flaenorol (gan gynnwys ychwanegu, dileu neu newid o un cod ICD-10 i god arall), yr oedd dyddiad diwedd cyfnod gofal 100% ohonynt wedi digwydd o fewn chwe mis i'r data blaenorol a ddetholwyd ar 4 Gorffennaf 2021.



Ffigur 7: Newidiadau i brif godau ICD-10 ers dethol data'n flaenorol.


Cwblhau Codio OPCS-4

Nid oes disgwyl i OPCS-4 gael ei gwblhau 100% gan nad oes angen ymyriadau triniaeth ar bob cyfnod gofal, felly gall cofnod cyfnod gofal fod yn gyflawn heb god OPCS-4 wedi'i recordio ar ei gyfer.

Tabl 2: Canran y Cyfnodau Gofal sydd â Phrif God OPCS-4 yn ôl Mis Diwedd y Cyfnod Gofal.


Cyfnod Amser Period	Dyddiad Diwedd Cyfnod Gofal	Canran wedi'i Chodio (cyfartaledd treigl 7 niwrnod)
Diwedd y Cyfnod Gofal Diweddaraf	27/07/2021	Dd/B
1 Wythnos Cyn	20/07/2021	12%
2 Wythnos Cyn	13/07/2021	19%
3 Wythnos Cyn	06/07/2021	25%
1 Mis Cyn	27/06/2021	44%
2 Mis Cyn	27/05/2021	51%
3 Mis Cyn	27/04/2021	54%
4 Mis Cyn	27/03/2021	57%
5 Mis Cyn	27/02/2021	58%
6 Mis Cyn	27/01/2021	60%

Ymddengys fod cofnodi data prif godau OPCS-4 yn fwy amserol na chofnodi codau ICD-10. Trwy ddefnyddio cyfartaledd cwblhau codio 2019 a 2020 yn feincnod, sef 56%, mae hynny'n dangos bod y ganran hon yn cael ei chyrraedd fel arfer o fewn tri i bedwar mis o'r detholiad data diweddaraf.



Ffigur 8: Canran y cyfnodau gofal sydd â phrif god OPCS-4 wedi'i gofnodi yn ôl cod mis a ychwanegwyd gyntaf at PEDW (cyfartaledd treigl 7 niwrnod).

Er bod pob pennod yn dangos rhywfaint o ôl-godio OPCS-4, mae'r graffiau isod yn dangos bod rhywfaint o amrywiaeth yn y graddau rhwng y penodau. Sylwch fod penodau gyda niferoedd bach wedi'u hepgor i osgoi datgeliadau.




Ffigur 9: Nifer y cyfnodau gofal sydd â phrif god OPCS-4 wedi'i gofnodi yn ôl cod mis a ychwanegwyd gyntaf at PEDW (cyfartaledd treigl 7 niwrnod) a Phennod OPCS-4. Sylwch fod echelin-y wedi'i haddasu i wella'r manylion y gellir eu gweld ar gyfer pob Pennod.

Pam mae'n bwysig

TMae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod oedi sylweddol mewn codio clinigol a dylai unrhyw un sy'n defnyddio PEDW fod yn ymwybodol o hyn wrth ddefnyddio PEDW at ddiben ymchwil a deallusrwydd. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n dangos bod gwybodaeth rannol am gyfnodau gofal yn cael ei chofnodi yn PEDW a bod y cofnodion yn cael eu diweddaru wedyn gyda gwybodaeth codio clinigol. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio detholiadau diweddar o'r set ddata i'w dadansoddi er mwyn cyfrif am yr oedi ar gyfer codio ICD-10 ac OPCS-4.

Gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio i gynorthwyo ymchwilwyr, gwyddonwyr data, dadansoddwyr busnes, swyddogion deallusrwydd ac unrhyw un arall fyddai'n dymuno defnyddio PEDW i gynhyrchu canfyddiadau â phenderfynu ar gyfnod priodol rhwng yr amser pan fydd detholiadau PEDW ar gael a'u defnyddio at ddibenion ymchwil.



Beth nesaf?

Mae adroddiad llawnach ar gael ac yn cael ei gynnal a'i ddiweddaru'n fisol i fonitro cyflawnder codio ac oedi PEDW, ac mae'n cynnwys rhagor o wybodaeth a dadansoddiadau, ynghyd â manylion mwy technegol. Mae hwn ar gael y tu allan i SAIL ar GitHub Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn: https://github.com/SwanseaUniversityMedical/DQ_Report_PEDW_Clinical_Coding.

Mae hwn hefyd ar gael ar GitLab yn SAIL gyda mwy o fanylion na chaniateir iddynt gael eu tynnu allan o SAIL drwy'r broses rheoli datgeliadau. Mae rhagor o wybodaeth am gyflawnder codio clinigol ac oedi yn ôl benodau ICD-10 ac OPCS-4 wedi'i chynnwys, i helpu ymchwilwyr i ddeall yr effaith bosibl ar eu maes ymchwil penodol.

Argaeledd data a deunyddiau

Mae'r data a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael ym Manc Data Sail ym Mhrifysgol Abertawe, Abertawe, ond gan fod cyfyngiadau'n berthnasol, nid ydynt ar gael yn gyhoeddus. Mae pob cynnig am ddefnyddio data SAIL yn cael ei adolygu gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) annibynnol. Cyn gallu cael at unrhyw ddata, rhaid i'r IGRP roi cymeradwyaeth. Mae'r IGRP yn ystyried pob prosiect yn ofalus i sicrhau bod data SAIL yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac yn briodol. Pan ganiateir mynediad, fe'i ceir trwy system fynediad o bell a hafan diogel sy'n amddiffyn preifatrwydd o'r enw Porth SAIL. Mae SAIL wedi sefydlu proses ymgeisio i'w dilyn gan bawb a hoffai gael mynediad at ddata SAIL, yn: https://www.saildatabank.com/application-process

Diffiniadau

Statws maes cysylltu wedi'i anonymeiddio (ALF)
Mae statws ALF yn nodi ansawdd cysylltu'r data; cynhwyswyd y statysau canlynol ar gyfer yr adroddiad hwn:
- 1 – Mae rhif y gig yn pasio prawf gwirio digidau rhif y GIG;
- 4 – Mae'r Cyfenw, Enw Cyntaf, Cod Post a Rhyw yn cyfateb yn union i Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD);
- 39 – Tebygolrwydd cyfatebiaeth niwlog >= 0.9.

Codio clinigol
"Codio clinigol yw trosi geirfa feddygol sy'n disgrifio cwyn, problem, diagnosis neu driniaeth claf, neu unrhyw reswm arall dros geisio sylw meddygol, yn godau sydd yna'n gallu cael eu cynnwys mewn tabl, eu hagregu a'u didoli'n hawdd at ddiben dadansoddi ystadegol mewn modd effeithlon ac ystyrlon." (Y Gwasanaeth Dosbarthiadau Clinigol, 2017)

ICD-10
Mae Dosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol Clefydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig "yn cael ei ddefnyddio i drosi diagnosisau clefydau a phroblemau iechyd eraill o eiriau yn god alffaniwmerig, sy'n caniatáu am storio, adalw a dadansoddi'r data yn hawdd" (Sefydliad Iechyd y Byd, 2016). ICD-10 yw'r 10fed diwygiad a'r fersiwn ddiweddaraf adeg cyhoeddi. Bydd ICD-11 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2022.

OPCS-4
"Mae Dosbarthiad Ymyriadau a Thriniaethau OPCS (OPCS-4) yn ddosbarthiad ystadegol ymyriadau a thriniaethau a wnaed yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), gan adlewyrchu arfer clinigol presennol" (Y Gwasanaeth Dosbarthiadau Clinigol, 2017).

Cyfnodau gofal â chodau ICD-10 ac OPCS-4
Mae cyfnodau gofal sydd â phrif god ICD-10 neu OPCS-4 dilys yn y drefn honno yn cael eu recordio yng ngwedd data cyfnodau gofal PEDW a gellir eu cysylltu â gwedd data Cyfnod PEDW.

Cyfnodau gofal heb godau ICD-10 ac OPCS-4
Cyfnodau gofal pan fydd y prif god ICD-10 neu OPCS-4 yn y drefn honno yn nwl yng ngweddau data cyfnodau gofal PEDW a gellir eu cysylltu â gwedd data Cyfnod PEDW.

Codau sensitif
Mae cyfnodau gofal sy'n cynnwys codau ICD-10 ac OPCS-4 sy'n gysylltiedig â phynciau sensitif wedi cael eu heithrio o'r data. Ystyrir bod y canlynol yn bynciau sensitif:
- Ailbennu rhywedd;
- Feirws diffyg imiwnedd dynol (HIV) a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol (STDs);
- Colli baban ac erthyliadau;
- Triniaethau Ffrwythlondeb.

Cyfnodau gofal anorffenedig
Cyfnodau gofal nad oes dyddiad gorffen y cyfnod gofal ar gael/wedi'i recordio ar ei gyfer ar hyn o bryd

Cyfeirnodau

Archwilio Cymru (2020). Cracio'r Cod – Rheoli Codio Clinigol Ledled Cymru (Medi 2020). Ar gael ar: https://www.audit.wales/sites/default/les/clinical_coding_eng_10.pdf. (Cyrchwyd: 11/05/21)

BMA (2020), The Hidden Impact of Covid. Ar gael ar: https://www.bma.org.uk/media/2840/the-hidden-impact-of-covid_web-pdf.pdf. (Cyrchwyd 11 Mai 2021)

Y Gwasanaeth Dosbarthiadau Clinigol (2017). National Clinical Coding Standards OPCS-4 (2017): Accurate data for quality information. Ar gael ar: https://hscic.kahootz.com/gf2.ti/f/762498/27837541.1/PDF/-/NCCSOPCS42017.pdf (Cyrchwyd: 13 Gorffennaf 2021)

DHCW (Iechyd a Gofal Digidol Cymru) (2021). PEDW Data Online. Ar gael ar: https://nwis.nhs.wales/information-services/welsh-data-hub/pedw-data-online/ (Cyrchwyd: 20 Gorffennaf 2021)

ESRC (Economic and Social Research Council) (2013). Data Linking Demonstration Project - Journey Mapping for Patients with Multiple Chronic Health Conditions. Ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/data-linking-demonstration-project-journey-mapping-patients-with-multiple-chronic-health-conditions_0.pdf (Cyrchwyd: 21 Gorffennaf 2021)

HDR UK (Health Data Research UK) (2020). Patient Episode Dataset for Wales. Ar gael ar: https://web.www.healthdatagateway.org/search?search=&tab=Datasets. (Cyrchwyd: 21 Gorffennaf 2021)

HSCIC (diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2021), Covid-19 National Clinical Standard and Guidance. Ar gael ar: hscic.kahootz.com/connect.ti/t_c_home/view?objectID=19165328. (Cyrchwyd 11 Mai 2021)

NHS Digital (2020). Covid-19 National Clinical Coding Standards and Guidance. Ar gael ar: https://hscic.kahootz.com/t_c_home/view?objectID=19165328 (Cyrchwyd 9 Awst 2021)

GIG Cymru (2021). Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW). Ar gael ar: https://www.wales.nhs.uk/document/176173 (Cyrchwyd 13 Gorffennaf 2021)

Llywodraeth Cymru (2020). Fframwaith Cyflawni'r GIG 2020-2021. Ar gael ar: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/2020-21%20Delivery%20Framework.pdf. (Cyrchwyd 9 Awst 2021)

Sefydliad Iechyd y Byd (2016). International statistical classification of diseases and related health problems 10th revision Volume 2 Instruction manual Fifth edition. Ar gael ar: https://icd.who.int/browse10/Content/statichtml/ICD10Volume2_en_2019.pdf (Cyrchwyd 13 Gorffennaf 2021)

Sefydliad Iechyd y Byd (2021). Coronavirus symptoms. Ar gael ar: who.int/healthtopics/coronavisurs#tab=tab_3. (Cyrchwyd 11 Mai 2021)

Sefydliad Iechyd y Byd (2021). Emergency use ICD codes for Covid-19 disease outbreak. Ar gael ar: https://www.who.int/standards/classifications/classification-of-diseases/emergency-use-icd-codes-for-covid-19-disease-outbreak. (Cyrchwyd 13 Medi 2021)

Diolchiadau

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data dienw a gedwir ym Manc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL). Mae'r gwaith hwn yn defnyddio data a ddarparwyd gan gleifion ac a gasglwyd gan y GIG fel rhan o'u gofal a'u cymorth. Hefyd, hoffem ddiolch i'r holl ddarparwyr data sy'n darparu data dienw ar gyfer ymchwil. Hoffwn ddiolch i'r bartneriaeth gydweithredol a wnaeth alluogi i ni sicrhau a chael mynediad at y data heb fanylion adnabod, a arweiniodd at yr allbwn hwn. Arweiniwyd y cydweithrediad gan dîm Ymchwil Data Iechyd y DU Prifysgol Abertawe o dan gyfarwyddyd Cell Cyngor Technegol (TAC) Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys y grwpiau a'r sefydliadau canlynol: Banc Data SAIL, Ymchwil Data Gweinyddol (ADR) Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), Iechyd Cyhoeddus Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG (NWSSP) ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST). Cwblhawyd yr holl ymchwil a wnaed gyda chaniatâd a chymeradwyaeth Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) annibynnol SAIL, rhifau prosiect 0911 ac 0572.

Cyllid

TCefnogwyd y gwaith hwn gan dîm Con-COV a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Meddygol (rhif grant: MR/V028367/1). Cefnogwyd y gwaith hwn gan Ymchwil Data Iechyd y DU, sy'n cael ei gyllid gan HDR UK Ltd (HDR-9006) a ariennir gan Gyngor Ymchwil Meddygol y DU, y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr), Swyddfa Prif Wyddonydd Cyfarwyddiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth yr Alban, yr Is-adran Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru), yr Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon), y British Heart Foundation (BHF) ac Ymddiriedolaeth Wellcome. Cefnogwyd y gwaith hwn gan raglen waith YDG Cymru. Mae rhaglen waith ADG Cymru yn cyd-fynd â'r themâu â blaenoriaeth a nodir yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb. Mae YDG Cymru yn dwyn ynghyd arbenigwyr gwyddor data yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, staff o Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a thimau arbenigol o fewn Llywodraeth Cymru i ddatblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi Ffyniant i Bawb gan ddefnyddio Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, i gysylltu a dadansoddi data wedi'i anonymeiddio. Mae YDG Cymru yn rhan o ADR UK (grant ES/S007393/1) a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (rhan o UK Research and Innovation). Cefnogwyd y gwaith hwn gan Ganolfan Dystiolaeth Covid-19 Cymru, a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.





Cymru'n Un

TMae'r astudiaeth hon yn rhan o ymateb Cymru'n Un i Covid-19, sy'n dod â thimau traws-sefydliadol o arbenigwyr ledled Cymru ynghyd i ddarparu tystiolaeth amserol i lywio polisi ac ymarfer er mwyn mynd i'r afael â'r epidemig a'i effaith yn y DU.

Mae dwyn ynghyd gydweithwyr o grŵp Gwyddor Data'r Boblogaeth ac ar draws Cymru, gan gynnwys HDR UK, YDG Cymru, Banc Data Sail, yr Adolescent Mental Health Data Platform, BREATHE, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi arwain at ddull ystwyth ac ymatebol o fynd i'r afael â dadansoddi data a chynhyrchu deallusrwydd ar sail y blaenoriaethau cyson a'r blaenoriaethau sy'n datblygu o'r newydd ar gyfer mynd i'r afael â Covid-19 yng Nghymru.

Bydd tîm Cymru'n Un yn parhau i gydweithio i amlygu bylchau mewn gwybodaeth a symleiddio ymdrechion i ddarparu deallusrwydd hanfodol er mwyn helpu llunwyr polisi i ddeall a chynllunio yn gysylltiedig â Covid-19 yng Nghymru ac ar draws y DU.

HDRUK Health Data Research UK

YDG CYMRU | ADR WALES

SAIL DATABANK

Adolescent Mental Health DATA PLATFORM

BREATHE Health Data Research Hub

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Welsh Ambulance Services NHS Trust

Cynhyrchwyd gan YDG Cymru

Gwefan: ADRUK.org
Twitter: @ADR_Wales

Mae YDG Cymru yn dwyn timau arbenigol, arbenigwyr gwyddor data ac ystadegwyr ynghyd fel rhan o ADR UK, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (rhan o UK Research and Innovation). Mae ein tîm yn cynnwys arbenigwyr yn eu maes o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, gydag ystadegwyr, economegwyr ac ymchwilwyr cymdeithasol o Lywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, mae YDG Cymru yn datblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, er mwyn gwella bywyd pobl yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

Partneriaid YDG Cymru

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Medical School
Ysgol Feddygaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SAIL DATABANK

WISERD
Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and Economic Research and Data

ADR UK
Data-driven change

UKRI Economic and Social Research Council